# EXECUTIVE DECISION RECORD

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 7 AWST 2024

**Aelodau'r Cabinet:**

**Y Cynghorwyr:** S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a C.Phillips

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:**

K.Jones, N.Pearce, N.Daniel, A.Thomas, H.Jones, C.Griffiths, C.Howard, C.Saunders, C.Morris, C.Jones, S.Brennan, C.Davies, T.Davies ac N.Jones

**Gwahoddedigion Craffu/Cabinet yr Wrthblaid:**

Y Cynghorwyr P.Rogers, S.Pursey, S.Thomas, C.Galsworthy ac S.Paddison

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod. Teimlai fod y diddordeb hwn yn rhagfarnus, felly gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem berthnasol. Y Cynghorydd Llewelyn oedd cadeirydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

   Y Cynghorydd S Hunt – Cofnod Rhif 14 - Cytundeb Trwyddedu Arfaethedig.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2024/25**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2024/25

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

6. **CANOLFAN GYMUNEDOL Y GROES**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr asesiad effaith integredig, argymhellir bod Aelodau'n gwneud y canlynol:

Cytuno i ddatgan nad oes angen y safle ar gyfer gofynion strategol a gweithredol parhaus y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ac i drosglwyddo'r cyfrifoldeb parhaus dros reoli'r adeilad yn y dyfodol i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio hyd nes y gwneir penderfyniad ar ddyfodol y safle.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Datgan yn ffurfiol nad oes angen y safle ar gyfer anghenion y Gyfarwyddiaeth Addysg a hwyluso trafodaethau ar y defnydd yn y tymor hwy.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **ADOLYGIAD O DDIGWYDDIADAU A GWYLIAU**

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith aeth yr adroddiad hwn at y pwyllgor craffu ac awgrymwyd y dylid ychwanegu geiriau at adroddiad y Cabinet ar dudalen 107, o dan dabl 1 - Digwyddiadau cymunedol, elusennol ac nid er elw, a dylai'r geiriau ychwanegol ddarllen fel a ganlyn:

Dylai trefnwyr o fewn y categori hwn nodi, os yw digwyddiad yn cynnwys mwy na 33% o weithredwyr trydydd parti sy'n masnachu'n fasnachol, y bydd y digwyddiad yn cael ei ystyried yn 'Digwyddiad Cymunedol gyda Gweithgarwch Masnachol' a bydd angen iddynt dalu'r ffioedd priodol a nodir yn Nhabl 4.

**Penderfyniad:**

Gan roi sylw dyledus i'r Ffurflen Sgrinio Asesiad Effaith Integredig sy'n cyd-fynd ag ef, argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion canlynol i symud ymlaen trwy'r broses o wneud penderfyniadau:

1. Rhoi cymeradwyaeth i greu ac ariannu Tîm Digwyddiadau pwrpasol (gan gynnwys swyddogaeth y Swyddfa Ffilm) o fewn y Cyngor i gynorthwyo gyda chyflawni nodau'r Strategaeth Diwylliannol a'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 3 y Cynllun Corfforaethol.

2. Rhoi cymeradwyaeth i fabwysiadu'r Polisi Digwyddiadau a'r strwythur codi tâl arfaethedig.

3. Rhoi cymeradwyaeth i ddefnyddio £94,973 o gronfeydd wrth gefn ar sail Buddsoddi i Arbed i dalu am y diffygion disgwyliedig ym mlynyddoedd 1 a 2.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

I sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu gwasanaeth digwyddiadau cynhwysfawr ar gyfer digwyddiadau mewnol ac allanol, cynhyrchu refeniw ychwanegol drwy ddigwyddiadau a chynyrchiadau ffilmio a bodloni nodau'r Strategaeth Ddiwylliant a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 3 y Cynllun Corfforaethol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 8. PENODI LLYWODRAETHWR ALL

**Penderfyniad:**

Yn unol â'r polisi cymeradwy, penodir cynrychiolydd llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol a restrir yn yr atodiad am gyfnod pellach yn y swydd.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Galluogi'r Awdurdod i gyfrannu at lywodraethu ysgolion yn effeithiol drwy gynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG 2023-2024**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

10. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

11. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng Nghofnodion Rhif 13, 14 a 15 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

13. **PROPOSED AGREEMENT FOR LEASE**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, argymhellir fod yr aelodau'n cymeradwyo cytundeb am brydles, a phrydles yn ôl y telerau a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rhesymau dros Benderfyniad(au) Arfaethedig**

Bydd caniatáu'r cytundeb am brydles a'r brydles yn caniatáu i'r safle gwag hwn sydd mewn lleoliad amlwg gael ei osod a'i weithredu gan gwmni lleol a darparu incwm blynyddol i'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

14. **PROPOSED LICENCE AGREEMENT**

Ailbwysleisiodd y Cynghorydd S Hunt ei gysylltiad ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo opsiwn D.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

I gynorthwyo wrth sicrhau parhad Ffair Bleser Mis Medi Castell-nedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

15. **TATA STEEL TRANSITION**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig

(a) Yn amodol ar gwblhau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth/Cytundeb Grant priodol, rhoddir awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot i ymgymryd â rôl Corff Atebol a benthyciadau arian Llywodraeth y DU i liniaru effeithiau pontio Tata Steel fel y manylir yn y cynlluniau cyflawni ar ffurf fer.

(b) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac aelod perthnasol y Cabinet gytuno ac ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth/Cytundeb Grant ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill gyda Llywodraeth y DU i fenthyg yr arian y cyfeirir ato ym mharagraff (a) uchod.

(c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr gyflawni'r ymyriadau penodol, gan gynnwys comisiynu sefydliadau allanol, goruchwylio'r cynlluniau, darparu cymorth uniongyrchol, talu grantiau a dosbarthu cyllid i sefydliadau eraill fel y bo'n berthnasol.

(d) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr ymrwymo i gytundebau grant ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill gyda derbynwyr y cronfeydd a nodir ym mharagraff (a) uchod fel y bo'n berthnasol ar gyfer eu meysydd gwasanaeth ar amodau a thelerau i'w cytuno mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Caniatáu a galluogi'r Cyngor i ddefnyddio cyllid Llywodraeth y DU i liniaru effeithiau pontio Tata Steel, lle bo'n briodol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **DYMCHWEL EIDDO YM MHANT-TEG, A CHYTUNDEB CYSYLLTIEDIG Â'R PERCHNOGION TIR. (EITHRIEDIG DAN BARAGRAFFAU 13 AC 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl ystyried yr adroddiad a rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir y canlynol ar gyfer yr eiddo Cam 2:

a) Bod aelodau'n nodi taliadau iawndal yr adroddiad ariannol ac yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd gytuno a thalu'r costau rhesymol a hawlir fel rhan o'r cytundeb dymchwel.

b) Bod aelodau'n nodi'r camau gweithredu Gorfodi Statudol y gallai fod eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gorchmynion Dymchwel.

c) Bod aelodau'n nodi bwlch ariannu costau dymchwel ac yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd dalu anfoneb y contractwr dymchwel, a lle bo'n bosib ac yn berthnasol, adennill y cyfraniadau yswiriant fel rhan o'r cytundeb dymchwel a lle bo'n briodol cofrestru costau sy'n weddill fel dyled pridiant tir lleol yn erbyn yr eiddo a'r tir.

d) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio ymrwymo i gytundeb gyda'r perchnogion i brynu'r tir am £1 yn ogystal â thaliad o hyd at £500 ar gyfer costau cyfreithiol.

e) Bod aelodau'n nodi, ar ôl trosglwyddo tir i berchnogaeth y Cyngor, y bydd unrhyw ddyledion sydd wedi'u cofrestru fel pridiant tir lleol mewn perthynas â'r costau dymchwel heb yswiriant yn cael eu dileu.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

I symud ymlaen a chwblhau'r gwaith o ddymchwel yr eiddo yn 88, 86, 85, 84, 83, 82 ac 81 Heol Cyfyng a phrynu'r tir er mwyn i'r Cyngor gymryd rheolaeth o'r safle i sicrhau nad oes unrhyw werthiant pellach na datblygiad anawdurdodedig yn digwydd a allai danseilio sefydlogrwydd y llethr a pheryglu'r isadeiledd priffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**